**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AC

03 Rhagfyr 2015

Annwyl Mark

Ysgrifennaf ynglŷn â'r sylw a wnaethoch yn y Siambr yr wythnos ddiwethaf yn ystod dadl ar y Cynnig am Economi Gogledd Cymru (NDM5890). Yn ystod eich cyfraniad fe ddywedoch mai fi oedd y Gweinidog *"a dorrodd ddwy filltir allweddol oddi ar y gwaith deuoli ar reilffordd Wrecsam i Saltney er iddi fwrw ymlaen â gwaith deuoli rheilffordd yn ei hetholaeth ei hun".*

Mae'n bwysig tynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

- Cafodd y cyllid ar gyfer prosiect gwella'r rheilffordd "Gorllewin Abertawe – Trw-gŵyr i Gasllwchwr" ei gymeradwyo yn 2008, yn ystod llywodraeth Cymru'n Un.
- Cafodd y cynigion ar gyfer rheoli cyllideb y cynllun hwn eu cymeradwyo gan yr un llywodraeth, yn 2010.
- Ar 14 Mawrth 2013 yr ychwanegodd y Prif Weinidog Drafnidiaeth at y nghyfrifolebau portffolio i.
- Cwblhawyd y gwaith ar y prosiect hwn ar 8 Ebrill 2013.

Fel y dengys y dyddiadau uchod, nid fi oedd y Gweinidog â chyfrifoldeb dros wneud y pednerfyniadau am cynllun hwn nac am ei gynllunio.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Aelodau'r Cynulliad, rhag i unrhyw gamddealltwriaeth godi o'r sylw a wnaed.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*